Cenn@d

MAWRTH 24 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 4

# Cofio Luis Palau – a'i gysylltiadau â Chymru

**Ddechrau mis Mawrth eleni daeth y newyddion trist i law am farwolaeth yr efengylydd byd-enwog Luis Palau yn 86 mlwydd oed, a hynny yn dilyn brwydr yn erbyn cancr. Yma, mae Aled Davies, sy'n cofio gwrando ar Palau yn siarad ym Mangor fel rhan o'r ymgyrch Dweud wrth Gymru yn 1989, yn olrhain ei gysylltiadau â Chymru dros ddegawdau, gan gyf-weld nifer a fu'n cydweithio ag ef dros y blynyddoedd.**




Luis Palau

Efengylydd Cristnogol rhyngwladol oedd Luis Palau; roedd yn byw yn Portland yn yr Unol Daleithiau. Fe'i ganed yn yr Ariannin ond symudodd i Portland er mwyn dilyn cwrs gradd mewn Astudiaethau Beiblaidd. Roedd gan Palau berthynas hir ac agos gyda'r efengylydd Billy Graham, ac mae llawer wedi cyfeirio ato fel olynydd teilwng iddo. Fe'i disgrifiwyd fel 'un o ffigyrau Cristnogol efengylaidd mwyaf blaenllaw'r byd', ac fe'i cofir yn arbennig oherwydd ei ddawn i gyfathrebu â phobl ifanc a'i ymdrechion i estyn allan at arweinwyr crefyddol a gwleidyddol er mwyn mynd i'r afael â materion cymdeithasol fel digartrefedd a thlodi. Yn 2017, amcangyfrifwyd iddo rannu neges Iesu Grist â 30 miliwn o bobl mewn 70 o wledydd.

Dywedodd Palau iddo gael ei dröedigaeth Gristnogol yn 12 oed, ac o'r foment honno bu iddo neilltuo'i fywyd i Grist. Clywodd Luis yr efengylydd Billy Graham yn pregethu am y tro cyntaf ar ddarllediad radio o Portland, Oregon, tra oedd yn dal i fyw yn yr Ariannin yn 1950, ac fe gafodd ei ysbrydoli ganddo. Cyn hir, roedd yn gweithio i Graham fel cyfieithydd Sbaeneg ac fel efengylydd. Yn 1970, cyfrannodd Graham arian er mwyn i Palau allu dechrau ei weinidogaeth ei hun, ac erbyn hyn mae'r gwaith hwnnw wedi cyrraedd pob rhan o'r byd. Ers hynny, mae Palau wedi cynnal llawer o wyliau ac ymgyrchoedd efengylu ar raddfa fawr ledled y byd.

Un arall a ddaeth o'r Ariannin i Gymru yw Isaias Grandis, sy'n weinidog gyda'r Bedyddwyr ac yn byw efo'i deulu yn Llanddarog. Meddai Isaias wrth gofio am Palau:

> Bydda i wastad yn cofio mynd i un o *campañas* Luis Palau yn Buenos Aires, yn yr Ariannin, yn ystod yr amser pan o'n i'n astudio Diwinyddiaeth yng Ngholeg Casa Bíblica Quilmes. Roedd miloedd o bobl yno, ac o flaen ein llygaid roedd llawer yn penderfynu derbyn Iesu Grist yn eu bywydau. Roeddwn i'n meddwl am y cenhadwr o Gymru wnaeth ddylanwadu ar fywyd Luis drwy rannu'r efengyl yn yr Ariannin. Efallai mai nifer bach o bobl ddaeth yn Gristnogion ar ôl gwasanaeth y Cymro o genhadwr yn Argentina, a Luis Palau yn eu plith.
>
> Ond tybed oedd y cenhadwr yma'n dychmygu faint o filoedd fyddai'n dod i adnabod ein Gwaredwr Iesu Grist trwy'r dyn ifanc yma, Luis Palau? Mae'n rhaid i ni'r Cristnogion chwilio am ewyllys Duw ar gyfer ein bywydau heddiw, a beth bynnag yw'r gwasanaeth y bydd yr Arglwydd yn gofyn i ni ei gwblhau, bydd yn dda os ydyn ni'n ei wneud er clod iddo Ef. Amen.

Mae Luis Palau a'i deulu bob amser wedi teimlo dyled a diolchgarwch i'r cenhadon o Gymru a aeth i'r Ariannin ac a arweiniodd aelodau niferus o'i deulu at Grist. Bu cysylltiad clòs ganddo â Chymru drwy gydol ei weinidogaeth, gan ddod i gynnal nifer o ymgyrchoedd cenhadol yma. Daeth i Gymru am y tro cyntaf yn 1977, ac yn ystod ei ymweliad siaradodd â dros 60,000 o bobl. Cynhaliwyd rali fawr yng Nghastell Caerdydd, gydag ef a Cliff Richard yn rhannu'r llwyfan. Dyma atgofion Lowri Ann James, oedd yn y dorf yn y castell:

> Cof merch ifanc yn ei harddegau yn mynd gyda'i thad ar gefn moto-beic o'i chartre yn Llanrhymni i Gastell Caerdydd sydd gen i o ymweliad Luis Palau â Chaerdydd. Roedd Cliff Richard yno'n canu ac roedd hynny'n ddigon i mi. Roedd hi'n noson braf ac yn oer. Dw i ddim yn cofio beth ddywedwyd gan Luis Palau, na chaneuon Cliff Richard, ond dw i'n cofio niferoedd o bobl oddi mewn i furiau'r castell yn gwrando'n astud ar yr hyn gafodd ei ddweud a hwnnw'n tanio cynnwrf mewnol ynof i i holi mwy. Roedd ei neges yn angerddol a minne ddim yn ei ddeall ar y pryd. Ar ôl dychwelyd adre bûm yn effro – a chodais fore trannoeth yn holi un cwestiwn ar ôl y llall wrth fy nhad yn y gegin. Druan ohono! Ro'n i wedi bod yn mynd i gapel ers yn blentyn – ond gwelais rywbeth gwahanol yn y digwyddiad a'r neges – rhywbeth anniffiniadwy yn fy mhrofiad. Creodd argraff: un

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Dydd Gweddi'r Byd – profi bendith yn lleol eleni eto
**Tudalen 4**

Teithio i Fawrth yn Chwefror!
**Tudalen 5**

Cofio Euryn Ogwen Williams
**Tudalen 7**

# Cofio Luis Palau *(parhad o dudalen 1)*

digwyddiad mewn cyfres ohonynt yn y saithdegau a ddaeth i'm rhan.




Poster hysbysebu ymgyrch Dweud wrth Gymru yn 1989

Yna, yn 1989, daeth yn ôl i'r castell yng Nghaerdydd i fod yn rhan o'r ymgyrch Dweud wrth Gymru / Tell Wales. Bu iddo gynnal nifer o nosweithiau yn y de a'r gogledd, lle cafwyd elfennau Cymraeg, a bu'n rhannu llwyfan â Dr David Enoch, gyda chriw o Gristnogion ifanc Cymraeg, Canu'n Llon, yn arwain yr addoliad mewn cyfres o nosweithiau ym Mangor. Daeth David Enoch i'w adnabod yn dda iawn dros y cyfnod, gan iddynt deithio dros Gymru gyda'i gilydd a rhannu llety. Mae'n ei gofio fel cyfathrebwr pwerus dros ben, ac yn ddyn cywir, diffuant a gonest. Cofiai hefyd i Palau ddweud wrtho fod Cymru yn 'lle caled iawn i rannu'r efengyl' a bod gwrthwynebiad gan rai o blith yr enwadau. Eto, roedd yn ddiolchgar fod tyrfa o 5,000 wedi dod i'w glywed yn annerch ar faes y sioe yn Llanelwedd.

Dyma atgofion Arwel Ellis Jones, oedd yn un o drefnwyr yr ymgyrch:

Daeth Luis Palau i Gymru i arwain ymgyrch Dweud wrth Gymru ym Mai a Mehefin 1989. Ond, roedd yn fwy na chyfres o gyfarfodydd pregethu. Bu gwaith paratoi trylwyr yn dwyn eglwysi ynghyd, sefydlu pwyllgorau lleol, gweddïo, dosbarthu taflenni a hyfforddi gwirfoddolwyr. Nid oedd ei ymweliad at ddant pawb: 'pregethu rhy simplistaidd', 'dim digon o sôn am bechod', 'ymgyrch ddrud ac aneffeithiol'!

Fel aelod o bwyllgor lleol ac un o'r ymddiriedolwyr cenedlaethol, roeddwn yn ymwybodol o'r gwendidau ond hefyd yn falch o'r fraint o fod yn rhan o'r gwaith. Ychydig fisoedd wedyn, cefais gyfle i grynhoi fy marn ar yr ymgyrch mewn erthygl yn y *Cylchgrawn Efengylaidd*. Wrth gofio'r diweddar Luis Palau, fedra i wneud dim gwell na dyfynnu'r hyn a ddywedais wrth gloi'r erthygl honno: 'Fe bregethwyd yr efengyl i nifer sylweddoli o Gymry. Fe gynyddwyd ymwybyddiaeth pobl o Dduw. Fe welwyd yn eglur bod Duw ar waith heddiw yn achub eneidiau. Fe adeiladwyd yr Eglwys nid yn unig trwy gynyddu niferoedd ond trwy roi hwb i Gristnogion mewn hyfforddiant a phrofiad i'w cynorthwyo i ufuddhau i Gomisiwn ein Arglwydd.' Diolch i Dduw am hynny ac am fywyd a gwaith Luis Palau.

Cadeirydd Dweud wrth Gymru am gyfnod oedd y Parch Denis Young. Cofia yntau am y gwaith paratoi manwl ymlaen llaw cyn i Palau gyrraedd, gan gynnwys nifer fawr o gyrddau gweddi, ac atgofion o deithio o gwmpas y gogledd mewn car efo Arfon Jones, gan dynnu trelar efo baner fawr yn hysbysebu'r digwyddiadau, a chorn siarad uchelseinydd yn estyn gwahoddiad i bobl fynychu'r cyfarfodydd. Cofia hefyd fod Neuadd PJ ym Mangor wedi bod yn gyffyrddus lawn ar gyfer y gyfres o ddigwyddiadau.

Un arall sy'n cofio ymweliad Palau yn 1989 yw Gwenno Hughes o Gaernarfon. Meddai: 'Cawsom y fraint o'i weld yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Roedd Duw wedi ein harwain i werthu ein siop ym Mhorthaethwy a symud i Ddyfnaint i weithio ar fferm Gristnogol gan y Gilead Foundation. Ond rhaid oedd teithio 'nôl i wrando ar Louis Palau, gan ein bod wedi edrych ymlaen cymaint at y digwyddiad.'

Derbyniodd wahoddiad eto yn 2004 ar achlysur cofio canmlwyddiant Diwygiad 1904/5. Trefnwyd nifer o gyfarfodydd dathlu dros dridiau o dan yr enw 04theCity, pryd y bu iddo rannu'r llwyfan efo'r gantores *gospel* Nia o Gynwyl Elfed, y canwr Mal Pope a'r awdur deunyddiau defosiynol Selwyn Hughes. Meddai Palau ar y pryd, 'Rydym yn llawenhau bod Duw wedi defnyddio'r ymgyrch hon i rannu'r Newyddion Da gyda dros 3,800 o bobl yn y ddinas!'

Yn 2017 daeth ei fab, Andrew Palau, i Abertawe ar wahoddiad 30 o eglwysi yn y ddinas, a hynny ar gyfer wythnos genhadol o'r enw Shine Swansea. Meddai Andrew, 'Daeth Dad yma am y tro cyntaf yn 1977, gan greu cysylltiad gyda nifer o arweinwyr pan oedd ar daith o'r enw "From Argentina with Thanks". Rhannodd Dad am yr holl bethau da oedd wedi digwydd dros 50 mlynedd ers i'r cenhadon ffyddlon hynny o Gymru ddod i'r Ariannin gan ennill aelodau o'r teulu Palau i Grist.'

Y tro olaf i Luis Palau ddod i Gymru oedd yn 2018, pan ddaeth i annerch mewn digwyddiad mewn eglwys yng Nghaerdydd. Mae David Enoch yn ddiolchgar i Luis Palau am alw heibio i'w weld, ac yn ymfalchïo yn y llun a dynnwyd ohonynt gyda'i gilydd.



Luis Palau gyda Dr David Enoch yn 2018

Erbyn hyn, mae'r Luis Palau Association yn gweithio mewn 70 o wledydd dros y byd, ac mae ei ddau fab, Andrew a Kevin, bellach yn arwain y gwaith hwn.



Canu'n Llon, grŵp addoli o'r 80au, yn arwain yr addoliad yn un o gyfarfodydd lansio'r ymgyrch yn Llandudno. Yn y llun, o'r chwith i'r dde, gwelir Lowri Ann Jones, Delyth Wyn Davies, Arwel Ellis Jones a Nia Williams, gyda'r Parch Denis Young, a oedd yn annerch yn y cyfarfod, yn eistedd yn y cefn.